Hawdd ei Ddeall


Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru rownd 2 - Refeniw

## Arian i gefnogi sefydliadau'r celfyddydau gyda eu costau rhedeg drwy Coronafeirws

Gwnewch gais erbyn 20 Ebrill 2021




Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o Gronfa Adferiad Diwylliannol Cymru 2021/22 - COVID-19: Cymorth i Sefydliadau Celfyddydol (Refeniw).

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall, ond efallai y byddwch chi dal angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn ysgrifen glas trwm fod yn anodd i'w deall. Gallwch wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar dudalen 32.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Cyngor Celfyddydau Cymru. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:



**E-bost:** **grantiau@celf.cymru**

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthym beth yw eich barn am y ddogfen hawdd ei deall hon, cliciwch yma .

# Cynnwys

Sut i ddefnyddio’r ddogfen hon ....................................................................2

Am y Gronfa Adferiad Diwylliannol rownd 2 ...................................................4

Y Gronfa Refeniw ...........................................................................................5

Sut i wneud cais............................................................................................15

Sut fyddwn ni’n gwneud ein penderfyniad..................................................22

Pa wybodaeth rydyn ni ei hangen gennych chi..........................................24


Beth os oes gen i gwestiwn?.........................................................................28

Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth..................................................29

Cwynion..........................................................................................................31

Geiriau Anodd................................................................................................32

# Am y Gronfa Adferiad Diwylliannol rownd 2




Arian ydy'r **Gronfa Adferiad Diwylliannol** gan Lywodraeth Cymru i gefnogi sefydliadau'r celfyddydau drwy coronafeirws.



Y **Gronfa Refeniw**

Mae'r **Gronfa Refeniw** i dalu costau rhedeg eich sefydliad. Er enghraifft talu cyflogau staff a thalu am nwy, trydan a dŵr.

**Mae'r ddogfen hon am y Gronfa Refeniw rownd 2.**



Mae llawer o sefydliadau wedi cael eu heffeithio gan coronafeirws. Mae'n rhaid i ni gefnogi sefydliadau sydd fwyaf mewn angen.



Meddyliwch yn ofalus os gwelwch yn dda os oes angen i chi wneud cais am yr arian yma.

# Y Gronfa Refeniw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae gennym hyd at £30 miliwn yn y gronfa Adfer Diwylliannol 2. Mae'r arian gan Lywodraeth Cymru Ond nid yw oes sicrwydd o'r swm hwn.

## Ar gyfer beth mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio?




Mae'r arian hwn yn gallu cael ei ddefnyddio i'ch cefnogi chi gyda eich costau rhedeg. Mae hyn yn cynnwys eich costau busnes arferol fel:



- Cyflogau staff.


- Rent a chostau adeilad. Fel yswiriant, gwaith adeiladu a diogelwch.




- Cyfleustodau - dŵr, trydan, nwy, ffôn a'r rhyngrwyd.



- Offer rhent fel cyfrifiaduron ar gyfer y swyddfa. Paratoi ar gyfer ailagor sefydliadau.




Mae'r arian hwn yn gallu cael ei ddefnyddio hefyd i'ch cefnogi gyda chostau anarferol fel:



- Staff sy'n gweithio gartref. Neu paratoi ar gyfer ailagor busnesau a sefydliadau.



- Cael cyngor cyfreithiol am faterion coronafeirws.



- Cadw lleoliadau'r celfyddydau yn barod i'w defnyddio ac mewn cyflwr da.

- Gall sefydliadau sydd angen help gyda chostau **cyfalaf** gwneud lleoliadau a chyfleusterau yn ddiogel mewn perthynas â COVID wneud cais am **gostau cyfalaf** hyd at £5000.



Mae'r **costau Cyfalaf** i brynu pethau 1 waith rydych chi eu hangen i gadw eich sefydliad ar agor. Er enghraifft offer i wneud eich adeilad yn ddiogel i'w ail-agor. Gallwch wneud cais am hyd at £5 mil o gostau cyfalaf yn y cais hwn.

# Pwy all wneud cais?



Mae'r gronfa hon ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.




Mae'n rhaid i'ch corff fod yn 1 o'r mathau canlynol:

- Cwmni Cyfyngedig drwy Warant
- **Elusen Gofrestredig** (yn cynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
- **Corff Ymgorfforedig Elusennol** (CIO)
- **Cwmni Buddiannau Cymunedol** (CIC)
- **Cwmni Cyfyngedig drwy Gyfranddaliadau**
- **Cymdeithas Anghorfforedig**
- **Partneriaeth.** Yn cynnwys Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig
- Prifysgol neu sefydliad cyhoeddus arall sy'n rhedeg gweithgaredd celfyddydau.



Rhaid i'ch sefydliad:

- Ddarparu gweithgareddau celfyddydau mae pobl yn eu mwynhau ac yn cymryd rhan ynddyn nhw. Mae'n rhaid i chi allu dangos hyn.



- Gwneud o leiaf hanner ei waith mewn math o gelfyddyd rydyn ni'n ei gefnogi. Er enghraifft, dawns, cerddoriaeth, theatr.




- Gwneud y rhan fwyaf o'i waith yng Nghymru.



- Cael cyfeiriad yng Nghymru. A chyfrif banc DU yn enw'r sefydliad gyda o leiaf 2 berson wedi'u henwi fel llofnodwyr. Mae hyn yn meddwl bod o leiaf 2 berson wedi cytuno i arian gael ei ddefnyddio o'r cyfrif.



- Ni ddylai Cyfarwyddwyr neu Bartneriaid fod â chysylltiad agos. Ac ni ddylent fyw yn yr un cyfeiriad.



- Peidio bod yn ddyledus mewn arian na gwaith ar gyllid arall gan **Gyngor Celfyddydau Cymru** neu **Lywodraeth Cymru**.



Mae’r cyllid hwn yn gweithio ochr yn ochr gyda cyllid eraill gan y Llywodraeth i gefnogi sefydliadau drwy coronafeirws.



Ni allwch gael arian o’r gronfa hon i wario ar bethau sy’n cael eu cwmpasu gan gronfa arall yn barod.



Os ydych chi fel arfer yn cael arian cyhoeddus i redeg eich sefydliad dylai hyn gario yn ei flaen. Gallwch ddefnyddio’r gronfa hon yn ogystal â’ch arian cyhoeddus arferol.

**Ni all y gronfa hon gefnogi:**



- Unigolion, ymarferwyr llawrydd ac unig fasnachwyr
- Gwyliau a Digwyddiadau
- Lleoliadau a Bandiau cerddoriaeth llawr gwlad, lleoliadau comedi, cyhoeddi, ffilm a theledu, diwydiannau creadigol.



- Gwasanaethau cymorth technegol
- Sinemâu annibynnol
- sefydliadau a lleoliadau sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan Awdurdodau Lleol
- gweithgaredd a fyddai'n rhan o'ch rhaglen arferol
- Ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru yn trefnu cronfeydd sy'n cefnogi'r rhain.



Gall bandiau pres wneud cais i **Gronfa Adfer Diwylliannol Cyngor Celfyddydau Cymru**.



Gall lleoliadau sy'n cefnogi mwy nag 1 ffurf gelfyddydol wneud cais am y gronfa hon hefyd. Os mai eich prif weithgaredd yw un o'r gweithgareddau rydym yn gweithio gyda nhw, gallwch wneud cais i ni am gyllid.




Dim ond i **Lywodraeth Cymru** neu i **Gyngor y Celfyddydau** y gall sefydliadau wneud cais.



Os nad ydych chi'n siŵr i pwy i wneud cais dylech gysylltu gyda Chyngor Celfyddydau Cymru yn grants@arts.cymru neu gyda **thîm Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru.**

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND
ARIENNIR GAN Y LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL LOTTERY FUNDED

Os yw eich sefydliad wedi cael arian gan Gyngor y Loteri Genedlaethol yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, gallwch wneud cais am y gronfa hon.

Meddyliwch yn ofalus os gwelwch yn dda os oes angen i chi wneud cais am yr arian yma.



Os ydy eich prosiect yn cael ei ariannu gan y Loteri Genedlaethol, bydd yn rhaid i staff llawrydd sy'n cael eu talu gan y prosiect wneud cais i **Gronfa Adfer Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Unigolion.**



Os yw eich sefydliad yn gweithio y tu allan i Gymru oherwydd eich bod yn teithio gallwch anfon e-bost atom yn grants@arts.cymru i gael gwybod a allwch wneud cais.




Os ydych chi'n gweithio y tu allan i Gymru mae'n rhaid i chi e-bostio 5 diwrnod gwaith cyn **20 Ebrill 2021** i gael gwybod a allwch wneud cais.



Dylai ffurfiau celf a gweithgarwch sy'n cael eu rheoli gan awdurdod lleol wneud cais i [Gronfa Caledi Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru.]

## Am faint o arian rydych chi'n gallu gwneud cais?




Gallwch wneud cais am hyd at **£1 miliwn a hanner** i gefnogi eich gweithgareddau tan **fis Medi 2021**. Mae'n dibynnu ar faint mae eich sefydliad yn ei ennill mewn blwyddyn fel arfer:




- **Os ydych chi'n ennill £750 mil neu lai fel arfer:**

  Gallwch wneud cais am hyd at **£100 mil**.




- **Os ydych chi'n ennill rhwng £750 mil a £2 filiwn fel arfer:**

  Gallwch wneud cais am hyd a**t £250 mil**. .




- **Os ydych chi'n ennill dros £2 filiwn fel arfer:**

  Gallwch wneud cais am hyd at **£1 miliwn a hanner**.



Dylech wneud cais am y swm rydych chi ei angen yn unig. Mae'n rhaid i chi esbonio'n glir pam rydych chi angen y swm rydych chi'n gofyn amdano.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales




Os ydych chi'n cael arian gennym ni fel arfer, ni ddylech chi wneud cais am fwy na faint rydych chi'n ei gael fel arfer.



Os ydych chi angen gwneud cais am fwy o arian nag yr ydyn ni wedi ysgrifennu amdano ym, bydd angen i chi siarad gyda ni. Anfonwch e-bost atom ar: grants@arts.cymru. Ni allwch wneud cais am fwy nag £1.5 miliwn.

## Cymorth Gwladwriaethol a chymhorthdal y DU



Os ydych chi'n cael llawer o bres o'r gronfa hon efallai y bydd yn cael ei weld fel **Cymorth Gwladwriaethol**. Yr enwau ar reolau'r UE am hyn ydy **Rheolau Cymorth Gwladwriaethol**.



Mae **Cymorth Gwladwriaethol** yn arian sy'n cael ei roi i fusnes neu sefydliad. Gallai wneud 1 sefydliad yn well eu byd na sefydliad arall. Ac efallai nad yw hyn yn deg.




Mae'r DU wedi gwneud ei rheolau ei hun ynghylch cymorthdaliadau o'r enw **Rheolau Cymhorthdal y DU**.

Mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod chi'n dilyn rheolau Cymorth Gwladwriaethol a rheolau cymhorthdal y DU. Gallwch ddarllen mwy amdano yma: https://www.gov.uk/guidance/state-aid

Os ydych chi eisiau mwy o help bydd angen i chi gael eich cyngor cyfreithiol eich hun.

# Sut i wneud cais




## Dyddiadau pwysig

Mae'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn agor Ddydd **Mawrth 6 Ebrill 202**1.




Rhaid i chi anfon eich cais ar-lein i ni erbyn 5pm ar ddydd **Mercher 20 Ebrill 2021.**

## Beth sydd angen i chi ei wneud




Mae'n rhaid i chi gofrestru ar ein gwefan yn gyntaf cyn i chi wneud cais. Os ydych chi wedi cofrestru nid oes angen i chi wneud hyn eto.

Edrychwch ar wefan https://arts.wales/funding i gael gwybod pa ddogfennau y bydd angen i chi eu huwchlwytho cyn gwneud eich cais.



1. Llenwch y ffurflen ar-lein yma: Ffurflen ar-lein

   Os oes gennych chi unrhyw broblemau gyda hyn, anfonwch e-bost atom ar: grants@arts.cymru.



2. Pan fyddwn ni'n cael eich cais byddwn ni'n anfon e-bost atoch chi i adael i chi wybod ein bod ni wedi ei dderbyn.



3. Byddwn yn darllen y wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi i ni. Efallai y bydd angen i ni ofyn am fwy o wybodaeth gennych chi i wneud yn siŵr eich bod chi'n gallu gwneud cais am y gronfa hon.



4. Byddwn ni'n gwirio faint o arian rydych chi ei angen ac ar gyfer beth rydych chi ei angen. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod yr arian rydych chi'n gofyn amdano yn deg ar gyfer y gwaith rydych chi eisiau ei wneud.




5. Os byddwn ni'n penderfynu rhoi arian i chi byddwn yn anfon Ffurflen Derbyn Arian a Manylion Banc atoch chi. Llenwch hon a'i hanfon yn ôl atom ni.



6. 4. Pan fydd gennych chi eich Ffurflen Derbyn Arian a Manylion Banc a'n bod ni wedi gwirio eich manylion banc mi fyddwn ni'n anfon arian i chi. Byddwn yn anfon arian i chi mewn camau:



If you get **more than £50 thousand** we will send you:

- Ychydig o dan hanner y cyfanswm ar unwaith.



- Yr un swm eto ym mis **Gorffennaf 2021** unwaith y byddwn ni wedi cael adroddiad diweddaru gennych chi.




- Gweddill yr arian pan fyddwn ni wedi derbyn eich adroddiad terfynol.

Os ydych chi'n cael llai na **£50 mil** byddwn ni'n anfon:



- Y rhan fwyaf o'r arian ar unwaith.




- Gweddill yr arian pan fyddwn ni wedi derbyn eich adroddiad terfynol.



Byddwn yn ymateb i bawb sydd wedi gwneud cais o fewn 6 wythnos o'r dyddiad cau.



Byddwn yn ceisio dod yn ôl atoch chi yn gynt os yn bosibl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os yw pethau'n cymryd mwy o amser am ryw reswm.

## Manylion banc




Mae angen i chi roi gwybodaeth i ni am eich cyfrif banc. Dyma'r cyfrif y byddwn ni'n talu'r arian iddo os byddwn ni'n penderfynu eich cefnogi.





Rydyn ni angen gweld prawf:



- bod y cyfrif banc yn enw eich sefydliad



- bod o leiaf 2 o bobl wedi'u henwi fel llofnodwyr. Mae hyn yn meddwl bod o leiaf 2 berson wedi cytuno i arian gael ei ddefnyddio o'r cyfrif.




- yn dangos y cod didoli a rhif y cyfrif.




Mae’n rhaid i’r prawf fod yn llai na 6 mis oed. Ac mae’n rhaid iddo fod yn rhywbeth swyddogol gan y banc. Er enghraifft llythyr gan y banc.




Ni allwn dalu arian i gyfrif cymdeithas adeiladu gyda phaslyfr yn unig.

# Y contract diwylliannol




Os ydych chi'n cael cymorth gan y gronfa hon bydd angen i chi gofrestru ar gyfer Contract Diwylliannol Llywodraeth Cymru



Mae'r contract diwylliannol yn golygu y byddwch chi'n meddwl am sut i wella bywydau pobl drwy eich gwaith.



Rydyn ni eisiau eich gweld chi'n cynnwys pethau yn eich cynlluniau fel:

- gwaith teg. Sicrhau bod cyflog teg. A gweithio gyda mathau gwahanol o bobl ar eich tîm staff.



- datblygu cyfleoedd i dyfu a chefnogi pobl yn llawrydd sy'n gweithio yn y celfyddydau yng Nghymru.



- gweithio gyda phartneriaid i wella iechyd a lles



- edrych ar ôl ein hamgylchedd.



Mae hon yn rhan bwysig o'ch cais. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rhoi manylion i ni am beth fyddwch chi'n ei wneud i wella bywydau pobl yng Nghymru.

## Adroddiadau




Os byddwch chi'n cael arian o'r gronfa hon, bydd angen i chi ddarllen **Adroddiad Cwblhau** ar ddiwedd **Medi 2021**. Bydd hyn yn esbonio i ni sut rydych chi wedi defnyddio'r arian.



Byddwn eisiau gwybod sut mae'r arian wedi eich helpu chi i:

- warchod swyddi



- cefnogi artistiaid unigol s




- copi o'ch cynllun ailagor




Bydd angen i chi hefyd ysgrifennu adroddiad am sut rydych chi'n bodloni'r **Contract Diwylliannol.** Bydd hyn yn hwyrach yn 2021 - 2022.

# Sut fyddwn ni'n gwneud ein penderfyniad



Nid ydyn ni'n gallu cefnogi pawb. Fe fyddwn ni'n meddwl am y pethau yma i'n helpu ni i wneud penderfyniadau:



- Pa mor ddifrifol ydy eich problemau arian.



- Pa mor bwysig ydy eich gwaith i bobl yng Nghymru.



- Os ydych chi'n rhoi cyfleoedd i artistiaid weithio.



Mae'n bwysig i ni gefnogi sefydliadau sydd yn:

- trin pawb yn deg



- gweithio gyda llawer o fathau gwahanol o bobl

- gweithio i gyrraedd pobl nad ydyn nhw fel arfer yn cymryd rhan yn y celfyddydau



Rydyn ni'n arbennig eisiau cefnogi sefydliadau sy'n ceisio gweithio mwy gyda:

- pobl fyddar ac anabl a phobl niwrowahanol.



- Cefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig amrywiol.



- siaradwyr Cymraeg.




Byddwn angen prawf bod staff yn cael yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a bod gweithwyr llawrydd yn cael ffi y cytunwyd arni. Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yw'r isafswm cyflog yr awr y dylai gweithwyr ei gael yn ôl y gyfraith.

# Pa wybodaeth rydyn ni ei hangen gennych chi




Mae 18 adran yn y ffurflen gais. Ewch drwy pob cwestiwn ac ateb mor llawn ag y gallwch chi.

**Rydyn ni angen gwybod:**




Os ydych chi'n gymwys i gael y gronfa hon pan fyddwch yn cofrestru am y tro cyntaf cyn gwneud cais am y gronfa.




Gwybodaeth gyswllt.




Am eich gwaith.



Faint o arian mae eich sefydliad wedi'i wneud rhwng 2019 a 2020.



Pa waith y mae eich sefydliad yn ei wneud i gefnogi'r celfyddydau yng Nghymru.




Sut mae coronafeirws wedi effeithio arnoch chi.



Pam rydych chi angen yr arian hwn a sut y byddwch yn defnyddio'r arian hwn i gefnogi eich sefydliad tan fis Medi 2021.




Manylion am unrhyw gyllid arall rydych chi wedi'i gael yn ystod yr adeg yma.



Sut byddwch chi'n bodloni ein prif nodau ar gyfer gwella bywydau pobl yng Nghymru. Eich cynlluniau ar gyfer yr arian hwn a sut y bydd hyn o fudd i bobl, staff a gwirfoddolwyr.




Dim ond o fis Ebrill 2021 i fis Medi 2021 y gallwn eich ariannu. Os ydych chi'n credu y gallech chi fod angen mwy o arian ar gyfer Hydref 2021 i Fawrth 2022, bydd yn ein helpu i gynllunio os byddwch yn dweud faint wrthym.



Ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol a Chymhorthdal y DU.



Ynglŷn â gwahanol ffurfiau celf o'ch gwaith.



Ynglŷn â chynlluniau gweithgaredd ar gyfer eich gwaith.



Sut y bydd eich gwaith o fudd i'r Gymraeg.




Ble bydd eich gwaith wedi'i leoli.



Gwybodaeth cydraddoldeb.




Gwybodaeth fel cyllideb a Chontract Diwylliannol. Mae'n rhaid i chi lawrlwytho'r templedi o'r ffurflen gais. Rhaid i chi ddarparu gwybodaeth i ni rhwng **1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021**.

# Beth os oes gen i gwestiwn?



Rydyn ni eisiau trefnu'r arian hwn yn gyflym Er mwyn ein helpu ni i wneud hyn yn dda, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ateb yr holl gwestiynau yn glir ac yn onest.



Os ydych chi'n ateb cwestiwn gyda gwybodaeth anghywir efallai y bydd angen i ni gymryd eich arian yn ôl yn nes ymlaen. Neu efallai y byddwn ni'n cymryd camau cyfreithiol os byddwn ni'n credu i chi wneud hyn ar bwrpas



Os ydych chi eisiau siarad gyda ni am eich cais os gwelwch yn dda e-bostiwch ni neu anfon neges atom ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

**E-bost:** grantiau@celf.cymru

**Gwefan:** Llenwch ffurflen ar ein gwefan

**Twitter: Anfonwch neges trydar** @Arts_Wales_




Byddwn yn dod yn ôl atoch chi cyn gynted ag y gallwn ni. Os ydych chi eisiau siarad gyda ni dros y ffôn yn lle anfonwch eich rhif ffôn i ni. Byddwn yn eich ffonio chi cyn gynted ag y gallwn ni.

# Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth



Rydyn ni'n credu bod gan bobl hawl i weld sut rydyn ni'n gwario'r arian sydd gennym ni.




Os fyddech chi'n hoffi dysgu mwy am hyn ewch i'n gwefan os gwelwch yn dda [https://arts.wales/about-us/accountability/freedom-information](https://arts.wales/about-us/accountability/freedom-information)




Am ein bod ni'n sefydliad cyhoeddus mae'n rhaid i ni adael i bobl weld i bwy rydyn ni'n rhoi arian yn ôl y gyfraith.



Mae hyn yn golygu y gallai pobl eraill weld rhywfaint o'ch gwybodaeth.




Mae mwy o wybodaeth am hyn ar wefan Rhyddid Gwybodaeth:[https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-freedom-of-information](https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-freedom-of-information)




Rydyn ni'n dilyn cyfraith o'r enw **GDPR (Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol)**. Mae hyn yn golygu nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu heb eich caniatâd chi. Oni bai bod cyfraith yn cael ei thorri.



Byddwn yn rhannu rhywfaint o wybodaeth gyda sefydliadau o'r tu allan sy'n helpu i'n hamddiffyn ni rhag **twyll**. **Twyll** yw pan fydd rhywun yn dweud celwydd i gael arian.



Os ydych chi am wybod mwy am hyn, darllenwch ein polisi preifatrwydd yma: [https://arts.wales/privacy-policy](https://arts.wales/privacy-policy)

# Cwynion




Os nad ydych chi'n hapus gyda'r ffordd rydyn ni wedi delio gyda'ch cais gallwch gwyno. Ewch i'n gwefan:

https://arts.wales/about-us/accountability/complaints




Dim ond os ydych chi'n meddwl nad ydyn ni wedi delio gyda'ch cais yn briodol y gallwch chi gwyno. Ni allwch gwyno er mwyn ceisio newid ein penderfyniad am roi arian i chi neu beidio.

# Geiriau Anodd

### Y Gronfa Refeniw

Mae'r Gronfa Refeniw i dalu costau rhedeg eich sefydliad. Er enghraifft talu cyflogau staff a thalu am nwy, trydan a dŵr.

### Y Costau Cyfalaf

Mae'r Gronfa Cyfalaf i brynu pethau 1 waith rydych chi eu hangen i gadw eich sefydliad ar agor. Er enghraifft offer i wneud eich adeilad yn ddiogel i'w ail-agor. Gallwch wneud cais am hyd at £5 mil o gostau cyfalaf yn y cais hwn.